

Iechyd a Diogelwch

Adroddiad Blynyddol



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

2024/2025

Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd

Tachwedd 2025 f2

Mae Fersiwn 2 bellach yn cynnwys data cymharol Sector ar gyfer damweiniau

<https://www.bangor.ac.uk/hss/index.php.cy>

Uchafbwyntiau

Roedd gwelliant pellach yn nifer y staff a gwblhaodd yr hunanasesiad a'r hyfforddiant ar ddefnyddio cyfrifiaduron, ac mae'r perfformiad yn uwch na'r targed a osodwyd.¹

Y llynedd adroddwyd mai dim ond 41% o staff newydd oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant cynefino iechyd a diogelwch. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024/25 wedi gwella ychydig, gyda thua 50% wedi gwneud yr hyfforddiant..

Cafodd mwy o staff eu hanafu o gymharu â'r gyfradd o 15.7 fesul 1000 o weithwyr a anafwyd y llynedd.

Mae nifer yr anafiadau bellach yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig.

Bu cynnydd bychan yn nifer y digwyddiadau a barodd i staff golli amser o'r gwaith i 5 achos, a doedd dim un ohonynt yn ddigwyddiad o bwys.

Dangosodd gwerthusiad o gyfnod o dri mis o deithio tramor fod 78% o deithwyr wedi cwblhau'r hysbysiad gorfodol. Gwelliant amlwg ar y llynedd.

Dim ond 54% o staff a gwblhaodd yr hyfforddiant gloywi ar-lein **newydd** gorfodol ar gyfer lechyd a Diogelwch.

Mae'r modiwl hwn yn rhan o becyn mwy o hyfforddiant gorfodol a gyflwynwyd yn 2024/25.

Hunanasesiad
Defnyddwyr
Cyfrifiaduron

95%

Gwelliant sylweddol
ar y flwyddyn
flaenorol (83%).

Sesiwn gynefino
iechyd a diogelwch
i staff newydd wedi
ei gwblhau

~51%

(74 o 146 aelod staff
newydd 'perthnasol').
Gweler **Nodyn**

Anafiadau i Staff

21.3

/1000

Mae'r cyfraddau
wedi dychwelyd i
lefelau cyn y
pandemig.

Cyfanswm y
damweiniau a
achosodd i staff
golli amser o'r
gwaith

5

1 achos yn fwy na'r 4
achos a adroddwyd y
flwyddyn flaenorol.

Camau Rheoli
Teithio Dramor

78%

Gwelliant amlwg ar
y gyfradd
gydymffurfiaeth o
57% a adroddwyd y
llynedd.

Hyfforddiant
gorfodol blynyddol
iechyd a diogelwch
i'r holl staff

~54%

Mae perfformiad ar
gyfer yr Hyfforddiant
Gorfodol newydd hwn
yn sylweddol islaw'r
disgwyliadau.

Sylwer: Dyma'r flwyddyn olaf yr adroddir ar wahân am **Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch** i staff newydd. Mae'r pecyn hyfforddi staff newydd bellach wedi'i gynnwys yn yr **Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Blynyddol Gorfodol i'r Holl Staff** (2025/26).

¹ Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Cyfarpar Sgrin Arddangos.

<u>Mynegai</u>	<u>Tudalen</u>
Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb	
1. Polisiâu a Dogfennau Allweddol Iechyd a Diogelwch	2
2. Archwiliadau, Perfformiad, Dadansoddi	2
3. Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygu Statudol	5
4. Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch	6
5. Damweiniau a Digwyddiadau	9
6. Gwylidwriaeth Iechyd	15
7. Larymau Tân yn Canu	15
8. Achosion Sifil i Hawlio lawndal (cysylltiedig ag iechyd a diogelwch)	17
9. Ystadegau'r Wefan	17

1. POLISIÂU A DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH ALLWEDDOL

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ddogfennau iechyd a diogelwch sylweddol craidd a gyflwynwyd, a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd yn ystod y flwyddyn.

• POLISIÂU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisiâu newydd yn 2024/25.

Cafodd y polisiâu canlynol eu diwygio, eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn ystod y flwyddyn:

- Rheoli Radon
- Ymbelydredd ïoneiddio (ffynonellau agored)
- Ymbelydredd ïoneiddio, Defnyddio Setiau Pelydr-X
- Diogelwch Tân (a chanllawiau rheoli cysylltiedig)
- Teithio Dramor
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd)
- Systemau gwasgedd
- Gweithio ar y safle y tu allan i oriau arferol

Adolygwyd **prif bolisi iechyd a diogelwch y brifysgol** a'i ddogfen **trefniadau** cysylltiedig hefyd yn 2024/25 a'u cymeradwyo gan Gyngor y Brifysgol. Mae'r ddogfen trefniadau iechyd a diogelwch yn uniongyrchol berthnasol i'r safon genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac yn amlinellu ein gofynion clir ar gyfer pob haen o reolaeth ac ar gyfer pob aelod o staff.

• POLISIÂU A DDIDDYMWYD

Diddymwyd y **Polisi Iechyd a Diogelwch Mamau Beichiog a Newydd**

Cyflawnir yr ymrwymiad polisi blaenorol tuag at iechyd a diogelwch mamau beichiog a mamau newydd drwy bolisiâu a gweithdrefnau eraill, gan gynnwys drwy'r Polisi Asesu Risg Iechyd a Diogelwch


a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, gan olygu nad oes angen dogfen bolisi ar wahân.

Mae canllawiau a gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer mamau beichiog a mamau newydd ar gael ar wefannau'r unedau Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol.

2. ARCHWILIADAU, PERFFORMIAD, DADANSODDI

Darperir adroddiadau cryno o archwiliadau mewnol priodol ac adolygiadau o themâu risg isod.

• ADOLYGIAD BWRDD GWAITH: DEUNYDDIAU (GWYDDONOL) RISG UCHEL



Canfu'r Adolygiad bwrdd gwaith fod gwybodaeth bresennol y Brifysgol ar gyfer nodi deunyddiau, cyfryngau a chemegau risg uwch yn gyfredol ac yn gywir.

Mae llawer o sylweddau, asiantau biolegol, cynhyrchion a deunyddiau a ddefnyddir yn y gwyddorau yn destun rheolaeth ddeddfwriaethol fwy llym oherwydd y gallan nhw achosi niwed neu gael eu defnyddio at ddibenion anghyfreithlon. Mewn rhai achosion, mae angen hysbysu a chael cymeradwyaeth nifer o Awdurdodau Statudol.

Canolbwyntiodd yr adolygiad bwrdd gwaith hwn ar ddarparu gwybodaeth am ddetholiad o ddeunyddiau a reolir yn fwy cadarn, megis:

- Atodlen 5² pathogenau a thocsinau
- Cyfryngau Biolegol – Grŵp Perygl 3 a 4.
- Pathogenau Anifeiliaid Penodedig
- Rhagsylweddion cyffuriau a ffrwydron;
- deunyddiau rheoledig risg uchel eraill.

Canfu'r Adolygiad fod yr wybodaeth bresennol yn gyfredol ac yn adlewyrchu disgwyliadau cyfredol ar gyfer rheoli deunyddiau risg uwch. Ni chanfuwyd unrhyw anomaledau.

Mae rhagor o wybodaeth am hysbysiadau statudol a deunyddiau cyfyngedig ar gael yma: www.bangor.ac.uk/hss/inflink/statutory.php.cy

² Deddf Gwrth-derfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001

• ADOLYGIAD O HYSBYSIADAU TEITHIO DRAMOR




Bu gwelliant o ran cydymffurfio â gofynion polisi'r Brifysgol ar gyfer hysbysu ac asesu teithio dramor.

Ar gyfer y cyfnod sampl hwn, canfuwyd bod 78% o deithwyr tramor a nodwyd wedi cofnodi eu taith yn gywir ar y Porth Hysbysu Teithio Tramor, ac nad oedd 22% wedi gwneud hynny.

Mae'r perfformiad hwn yn dangos y bu gwelliant ar yr arolwg blaenorol, a ddangosodd gyfradd gydymffurfio o 57%.

Cynhelir adolygiadau pellach o hysbysiadau Teithio Tramor yn 2025/26.

• COLEGAU / GWASANAETHAU – TREFNIADAU RHEOLI



Yn gyffredinol, dangosir perfformiad sefydlog heb unrhyw welliant neu ddirywiad sylweddol.

Adroddodd pob coleg, a gwasanaeth proffesiynol, ynghyd ag Undeb y Myfyrwyr, M-SParc a'r Ganolfan Rheolaeth, ar eu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch o ran bodloni nifer o fesuriadau cyffredin.

Mae perfformiad cyfartalog pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol yn cael ei werthuso gan ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad craidd (gyda pherfformiad cymharol y flwyddyn flaenorol mewn cromfachau), fel a ganlyn:

Eitem	%	Naratif	Tue dd
Adolygu Dogfennaeth: Polisi iechyd a Diogelwch	87% (80%)	Adolygodd 3 Choleg a 10 Gwasanaeth eu Polisi Iechyd a Diogelwch yn ystod y flwyddyn	↑
Adolygu Dogfennaeth: Asesiad Risg Cyffredinol:	80% (80%)	Adolygodd 2 Goleg a 10 Gwasanaeth eu Hasesiad Risg Cyffredinol yn ystod y flwyddyn	→
Penodwyd Cydlynnydd neu Swyddog Iechyd a Diogelwch lleol	100% 100%	Mae gan bob Coleg a Gwasanaeth Gydlynnydd/Swyddog Iechyd a Diogelwch dynodedig	→

Pennaeth/Cyf arwyddwr yn cwrdd â'r Swyddog/ Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch	93% (93%)	Mae pob un o'r 3 pennaeth coleg a'r 11 Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol yn cwrdd â'u Swyddog / Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch.	→
Pwyllgor / Corff Iechyd a Diogelwch	87% (93%)	- Mae gan bob un o'r 3 Choleg Bwyllgor Iechyd a Diogelwch - Mae 10 o wasanaethau'n cynnal naill ai Pwyllgor Iechyd a Diogelwch neu strwythur cyfarfod cadarn arall i drafod Iechyd a Diogelwch	↓
Cadeirydd Pwyllgor/Corff Iechyd a Diogelwch	87%* (93%*)	Nid oes pwyllgor pwrpasol gan ddau Wasanaeth Pwyllgor, na chwaith, fel dewis arall, fod â Iechyd a Diogelwch fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd rheoli.	↓
Ymgynghori â Staff	100% (93%)	Mae pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol yn datgan eu bod yn ymgynghori â staff ynghylch materion iechyd a diogelwch, lle bo'n berthnasol.	↑
Archwiliadau Iechyd a Diogelwch	53% (60%)	Cadarnhaodd 3 (3) Choleg a 5 (6) Gwasanaeth bod y Pennaeth / Cyfarwyddwr wedi cymryd rhan mewn Archwiliad(au) Iechyd a Diogelwch	↓
Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Lleol	67% (60%)	Dywedodd 10 Gwasanaeth fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cynefino lleol. Dywedodd 2 Wasanaeth a phob un o'r 3 Choleg nad oedd yr holl staff newydd wedi cael hyfforddiant cynefino lleol.	↑
Diogelwch Tân	100% (93%)	Cadarnhaodd pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol bod ganddynt drefniadau ar waith i roi gwybod i staff a myfyrwyr am yr hyn y dylent ei wneud os bydd larwm tân yn canu.	↑
Diogelwch Trydanol (offer)	80% (73%)	Nododd 2 (2) Goleg a 10 (9) Gwasanaeth eu bod yn cynnal profion PAT yn ôl eu hamserlen eu hunain. Nid yw 1 Gwasanaeth, adran weinyddol risg isel,	↑

		ac M-SParc yn profi yn unol ag amserlen. Mae 1 Coleg yn nodi mai dim swyddfeydd risg isel sydd heb gael eu harchwilio a'u profi yn unol â'r amserlen.	
Gwirio ac Awdurdodi Trwyddedau Gyrru	80% (93%)	Dyweddodd 2 Goleg a 10 Gwasanaeth eu bod yn gwirio / awdurdodi trwyddedau gyrru.	↓

Sylwer: Mae'r perfformiad pur wael o ran darparu sesiynau cynefino iechyd a diogelwch i staff newydd yn lleol yn bryder, yn enwedig o ystyried hynny ochr yn ochr â'r diffyg o ran cwblhau'r sesiwn gynefino iechyd a diogelwch gyffredinol ar lefel Prifysgol.

• Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol Unigol

Rhoddir sgôr yn unigol i Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol gan ddefnyddio 12 o fesuriadau (i'r Gwasanaethau), neu 14 (i'r Colegau), sy'n cynnwys polisi, ymgynghori â staff a chyfranogiad y Pennaeth a'r Cyfarwyddwr mewn archwiliadau iechyd a diogelwch. Darperir perfformiad y flwyddyn flaenorol mewn cromfachau.

Coleg	% Perfformiad
Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas	86% (87%)
Coleg Meddygaeth ac Iechyd	71% (80%)
Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg	86% (87%)
Gwasanaeth Proffesiynol	% Perfformiad
Gwasanaethau Campws	92% (92%)
Canolfan Bedwyr	92% (100%)
Y Gwasanaethau Digidol	100% (92%)
Gwasanaethau Cyllid	50% (54%)
Adnoddau Dynol	58% (85%)
Y Ganolfan Rheolaeth	100% (100%)
Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu	92% (54%)
Parc Gwyddoniaeth Menai (MSParc)	83% (100%)
Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil	92% (92%)
Gwasanaethau Myfyrwyr	75% (92%)

Undeb y Myfyrwyr	92% (92%)
Swyddfa'r Is-ganghellor	92% (85%)

Mae 2 Goleg yn parhau ar yr un lefel perfformiad cadarnhaol â'r flwyddyn flaenorol.

Llwyddodd 2 Wasanaeth Proffesiynol i gael sgôr o 100% a gwellodd 3 ar eu perfformiad ers y flwyddyn flaenorol.

• **RHEOLI RISG CEMEGOL A BIOLEGOL**

Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol y Brifysgol sy'n goruchwyllo agweddau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Defnyddio, storio a gwaredu cemegion peryglus (gweithgareddau labordy a chysylltiedig)
- Bioberyglon
- Addasu Genynnol

Mae nifer o arbenigwyr ym maes diogelwch cemegol, bioberyglon ac addasu genynnol yn aelodau o'r Pwyllgor ac maent yn cyfarfod ddwywaith bob blwyddyn. Yn ystod 2024/25, cyfarfu'r Is-bwyllgor ar ddau achlysur.

Ymwelodd ac archwiliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) safleoedd sy'n dod o dan reoliadau Organebau wedi eu Haddasu'n Enetig gan ganolbwyntio ar organebau mawr wedi'u haddasu'n Enetig. Mae'r ymweliadau hyn yn arferol ar gyfer pob safle cofrestredig ac ni chodwyd unrhyw bryder na mater sylweddol.

Mae'n debyg y bydd yr ymweliad nesaf biolegol/addasu genetig gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2029.

Ni hysbyswyd am unrhyw waith newydd ar organebau a addaswyd yn enetig yn ystod y flwyddyn ac ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiad na phryder sylweddol.

• **RHEOLI RISG YMBELYDREDD**

Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydrol y Brifysgol sy'n goruchwyllo gwaith ymbelydredd gwyddonol, defnydd o belydr-X a laserau pŵer uwch. Yn ystod 2024/25, cyfarfu'r Is-bwyllgor ar ddau achlysur.

Ni nodwyd unrhyw bryderon Iechyd a Diogelwch arwyddocaol yn ystod y flwyddyn.

Ymwelodd Arolygwyr Ymbelydredd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Brifysgol ym mis Medi 2024. Asesiad chwe-misol safonol oedd yr ymweliad, i weld a oedd y Brifysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol. Codwyd chwe phwynt gweithredu bach yn ystod yr ymweliad, ac mae pob un bellach wedi'i gywiro. Ni nodwyd unrhyw bryder na mater sylweddol

Yn y dyfodol, cydnabyddir y bydd rheoli ymbelydredd yn fwy heriol o ganlyniad i ymadawiad y Swyddog Amddiffyn rhag Ymbelydredd a llwyth gwaith cynyddol yn deillio o'r Sefydliad Dyfodol Niwclear. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn yn cael ei fonitro gan yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch Argyfwng Rheoli Argyfyngau.

3. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd **unrhyw gamau gorfodi** yn erbyn y brifysgol yn 2024/25.

Cychwynnwyd neu cynhaliwyd yr ymweliadau ac ymchwiliadau Awdurdod Statudol canlynol yn ystod 2024/25.

• AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH

Addasu Genetig/Bioddiogelwch

Ymwelodd Arolygydd Arbenigol yr Awdurdod ynghyd â Swyddog Gorfodi â'r mannau hynny a oedd yn dod o dan reoliadau Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig er mwyn eu harchwilio. Mae'r ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar organebau mawr sydd wedi eu haddasu'n enetig.

Ni chodwyd unrhyw bryder na mater sylweddol

Cynhyrchion Diogelu Planhigion (PPP)

Fel rhan o ymgyrch orfodi ac ymyrryd genedlaethol, ymwelodd Swyddogion Plaleiddiaid o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch â'r Brifysgol ar yr 17^{eg} o Orffennaf 2025 i asesu cydymffurfiaeth â gofynion sy'n ymwneud â storio, defnyddio a

gwaredu cynhyrchion perthnasol a gwmpesir gan Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2011.

Roedd yr ymweliad yn cynnwys gwerthuso rheolaeth a dogfennau, ac yna archwilio canolfannau staff Tiroedd y Brifysgol ym Meysydd Chwaraeon Ffriddoedd a Threborth, Gardd Fotaneg Treborth, a Gorsaf Ymchwil Henfaes yn Abergwyngregyn.

Yn ystod yr ymweliadau safle darganfuwyd nifer o faterion bach a gwnaed sawl argymhelliad, gan gynnwys yr angen am y canlynol:

- arwyddion rhybuddio ychwanegol ar rai cynwysyddion, siediau ac adeiladau
- cadw cofnodion gwell o raddnodi a gwiriadau chwistrellwyr cefn
- cynnwys 'brwsh a phadell' pwrpasol gyda phob pecyn arllwysiad cemegol
- cael cwpwrdd cadw mwy cadarn
- adolygiad o drefniadau ar gyfer clirio chwyn a/neu chwistrellu plaleiddiaid i goesynnau

Ymhellach, canfuwyd yn ddiweddarach nad oedd nifer o gynhyrchion plaleiddiaid a gedwid mewn Storfa Plaleiddiaid ddiogel wedi eu gwahardd rhag eu defnyddio bellach. Mae'r gwaharddiad yn bennaf oherwydd newidiadau mewn gwybodaeth, cyfansoddiad neu'n adlewyrchu newidiadau rheoleiddiol ehangach ar gyfer defnyddio'r cynnyrch hwnnw. Nodwyd hyn trwy eu rhif MAPP unigryw(cynnyrch plaleiddiaid a gymeradwywyd yn weinidogol).

Ysgrifennodd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at y Brifysgol ar y 1^{af} o Awst 2025 i hysbysu eu bod wedi canfod achos o dorri Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion, a datblygwyd Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â phob pwynt.

Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu o fewn yr amserlen a gynghorwyd.

Mae trefniadau monitro diwygiedig bellach ar waith i sicrhau'n well y dilynir arferion da ar draws y sefydliad.

Digwyddiad difrifol gyda sgaffaldau

O ganlyniad i ddigwyddiad difrifol ar y safle, lle syrthiodd sgaffaldiwr wrth symud sgaffald yn un o adeiladau'r Brifysgol, ymchwiliodd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r digwyddiad, ac i'r holl gontractwyr dan sylw. Yn rhan o'r broses hon, gwerthusir contract y Brifysgol a threfniadau rheoli Iechyd a Diogelwch hefyd.

Daeth ymchwiliad Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ben yn gyflym ac ni chafwyd unrhyw ganfyddiadau anffafriol, ac ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn unrhyw barti.

Darperir rhagor o fanylion am y digwyddiad o dan Digwyddiadau Difrifol ar dudalen 11.

• CYFOETH NATURIOL CYMRU

Ymwelodd Arolygwyr Ymbelydredd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Brifysgol ym mis Medi 2024. Roedd yr ymweliad yn asesiad chwe-misol rheolaidd i asesu cydymffurfiaeth â Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol.

Codwyd 6 cham gweithredu bach yn ystod yr ymweliad, ac mae pob un wedi cael sylw.

Ni nodwyd unrhyw bryder sylweddol.

4. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

Cafodd nifer o gyrsiau eu darparu neu eu hwyluso gan y tîm Iechyd a Diogelwch canolog, gan gynnwys:

- Sesiwn gynefino iechyd a diogelwch i staff newydd
- Sesiwn loywi orfodol i bob aelod o staff ynghylch Iechyd a Diogelwch
- Fforwm Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cydlynwyr a Chynrychiolwyr Undebau Llafur
- Ymchwiliad Tân a Marsialiaid Tân
- Asesydd Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Defnyddiwr Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Rheoli argyfwng gollyngiadau olew
- Asesiad Risg
- Cwrs Cymorth Cyntaf

Blwyddyn	Nifer y Cyrsiau / Sesiynau	Staff/Myfyrwyr Ôl-radd
2024/25	Cyfanswm y Cyfranogwyr	1,670
	34 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd	125
	Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein	465
	Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein	74
	Sesiwn Iechyd a Diogelwch gorfodol ar-lein	1006
2023/24	Cyfanswm y Cyfranogwyr	1,014
	34 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd	130
	Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein	780
	Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein	104
2022/23	Cyfanswm y Cyfranogwyr	1,148
	45 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd	161
	Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein	755
	Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein	232
2021/22	Cyfanswm y Cyfranogwyr	408
	31 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd	86
	Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein	158
	Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein	164
2020/21	Cyfanswm y Cyfranogwyr	2,898
	8 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd	25
	Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein	154
	Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein	125
	Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Covid ar-lein	2594

Nid oes unrhyw gofnodion canolog o unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarperir yn lleol gan Golegau, Ysgolion a Gwasanaethau, y mae'n ofynnol iddynt gadw cofnodion lleol.

Gall staff bellach gofnodi hyfforddiant a geir drwy ddarparwyr allanol ar eu modiwl dysgu iTrent eu

hunain (o fis Medi 2024). Gallai'r datblygiad hwn gynnig cyfle yn y dyfodol ar gyfer tystiolaeth well o hyfforddiant iechyd a diogelwch allanol a datblygiad proffesiynol parhaus.

CYNEFINO AR GYFER STAFF NEWYDD



Roedd perfformiad 2024/25 yn wael iawn unwaith eto, gyda dim ond 50.7% o staff newydd yn cwblhau'r sesiwn gynefino ganolog ar iechyd a Diogelwch.


Mae 74 o 146 aelod staff newydd (fel y bo'n berthnasol) wedi cwblhau Sesiwn Gynefino Gyffredinol y Brifysgol i Staff ar-lein, a oedd yn cael ei darparu fel rhan o becyn hyfforddiant a gwybodaeth yr adran Adnoddau Dynol i staff sydd newydd ddechrau.

Ar hyn o bryd, cyfraddau cwblhau ar gyfer y modiwl iechyd a diogelwch ar-lein yw'r unig weithgarwch hyfforddiant mesuradwy a all roi argoel a yw staff newydd wedi dilyn y sesiwn gynefino iechyd a diogelwch. Nid oes cofnod y gellir cael mynediad iddo'n ganolog o sesiynau cynefino lleol i staff (a ddarperir gan yr Ysgol/Gwasanaeth), y dylid eu darparu hefyd fel rhan o'r pecyn cynefino a chroeso ehangach ar gyfer gweithwyr newydd.

Y targed ar gyfer 2024/25 oedd 90%		
DANGOSYDD PERFFORMIAD	STATWS/GWERTH	NODIADAU
Canran y staff newydd (a wahoddwyd) a gwblhaodd sesiwn gynefino iechyd a diogelwch y brifysgol ar-lein ³	50.7%	Cynnydd bach ar y perfformiad o 41% yn 2023/24

Mae cyfraddau cyfranogiad staff newydd mewn sesiynau cynefino iechyd a diogelwch wedi bod yn is na'r perfformiad disgwyliedig ers sawl blwyddyn, ac mae hyn wedi parhau drwy 2024/25.

³ Nid yw'r ffigur yn cynnwys rhai staff llaw, staff a gaiff eu talu fesul awr a staff achlysurol sy'n gorfod cwblhau sesiynau cynefino iechyd a diogelwch yn lleol



Sylwer: Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori⁴ bod gan weithwyr yr un siawns o gael damwain yn ystod y 6 mis cyntaf mewn gweithle ag yn ystod gweddill eu bywydau gwaith.

Gan fod y cyfraddau cwblhau yn parhau i fod yn wael a thystiolaeth o sesiynau cynefino lleol heb fod ar gael, gwnaed penderfyniad, yn y dyfodol, i gyfuno'r cyflwyniad iechyd a Diogelwch i staff newydd gyda'r sesiwn loywi orfodol ddiweddar ar iechyd a diogelwch a gyflwynwyd i'r holl staff.

SESIWN LOYWI ORFODOL I BOB AELOD O STAFF YNGHYLCH IECHYD A DIOGELWCH



Dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd ar y mesur perfformiad newydd hwn.

Yn 2024/25 cyflwynodd y Brifysgol gyfres o sesiynau hyfforddiant ar-lein gorfodol y mae'n ofynnol i bob aelod o staff ei chwblhau.

Dylid cwblhau'r hyfforddiant gloywi bob blwyddyn.

Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Blynyddol Gorfodol		
DANGOSYDD PERFFORMIAD	STATWS/GWERTH	NODIADAU
Canran y Staff a gwblhaodd sesiwn loywi orfodol y Brifysgol ar iechyd a diogelwch	53.55%	Mae targed cyfradd gwblhau o ~100% ar gyfer 2025/26.


Lansiwyd y sesiwn iechyd a diogelwch orfodol ar-lein newydd i staff ym mis Tachwedd 2024 ac mae'n sicrhau bod pob aelod o staff yn cael gwybodaeth

⁴ Newydd i'r Swydd (Cyhoeddiad gwe Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)

iechyd a diogelwch yn rheolaidd, ac yn rhoi gwybod am themâu sy'n datblygu a materion sy'n dod i'r amlwg.

Roedd y gyfradd gwblhau ar gyfer 2024/25 yn wael, gydag ychydig dros hanner cyfanswm y staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Gwneir ymdrech yn ystod 2025/26 i wella'r gyfradd hon.

• **HYFFORDDIANT A HUNANASESIAD DEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**




Roedd y gyfradd gwblhau yn dda iawn, gan ddangos gwelliant pellach ar berfformiad cadarnhaol y flwyddyn flaenorol.

Defnyddir hyfforddiant defnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) fel dangosydd perfformiad allweddol wedi ei dargedu fel gwaelodlin iechyd a diogelwch. Mae hyfforddiant perthnasol ac asesu gweithfannau yn ofynnol dan y rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos.

Y targed ar gyfer 2024/25 oedd 87% o holl ddefnyddwyr cyfarpar sgrin arddangos		
DANGOSYDD PERFFORMIAD	STATWS/GWERTH	NODIADAU
Canran y defnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) a gwblhaodd yr hyfforddiant ar-lein a'r hunanasesiad o fewn y cyfnod gofynnol.	94.94%	Tuedd sy'n gwella --- Y targed ar gyfer 2025/26 fydd y lefel bresennol o 95% o ddefnyddwyr Cyfarpar Sgrin Arddangos wedi cwblhau eu hasesiad o fewn y cyfnod gofynnol.

Yn ystod 2024/25, cwblhaodd **465** (761 yn 23/24) aelod staff yr hyfforddiant a'r hunanasesiad ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiaduron, gan olygu yr amcangyfrifir bod tua 94.94% o'r holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r hunanasesiad o fewn y cyfnod o 3 blynedd.



Oherwydd y niferoedd isel o staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant a hunanasesiad cyfarpar sgrin arddangos yn 2022/23, gwnaed ymdrech ychwanegol i'w hyrwyddo yn 2024/25, yn enwedig o fewn Colegau a Gwasanaethau unigol. Mae'r perfformiad dilynol yn dangos i hynny fod yn llwyddiannus.

Mae'r tabl isod yn dangos % y 'defnyddwyr cyfrifiaduron' a gwblhaodd yr hyfforddiant a'r hunanasesiadau (y gyfradd gwblhau) ymhob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol.⁵

Hunanasesiad a Hyfforddiant Defnyddio Cyfrifiaduron	
Coleg/Gwasanaeth	%
Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas	96.9%
Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg	92.2%
Coleg Meddygaeth ac Iechyd	93.1%
Canolfan Bedwyr	93.8%
Y Gwasanaethau Digidol	100%
Gwasanaethau Cyllid	100%
Adnoddau Dynol	100%
Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio	93.3%
Gwasanaethau Campws	97.1%
Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil	97.4%
Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr	94.3%
Undeb y Myfyrwyr	94.7%
Swyddfa'r Is-ganghellor	100%

⁵ Mae'r data hwn yn seiliedig ar y staff a oedd yn gyflogedig ar 31 Gorffennaf 2025

5. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

DANGOSYDD
PERFORMIAD



Cyfanswm y damweiniau, digwyddiadau, damweiniau y bu bron iddynt â digwydd, amodau anniogel, a phryderon iechyd a Diogelwch cyffredinol a adroddwyd yn 2024/25.


Hefyd, roedd nifer yr anafiadau a gofnodwyd i staff yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cafwyd **407** (311 yn y flwyddyn flaenorol) o adroddiadau (*heb gynnwys rhai sy'n ymwneud â Chwaraeon*). Mae hwn yn gynydd nodedig.

O'r **407** adroddiad, roedd **71** yn ymwneud ag 'anaf' i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr awdurdodedig (*roedd 59 i gyd y llynedd*).

Roedd **252** (209) o adroddiadau yn cyfeirio at ddigwyddiadau pan na chafodd neb anaf, gan gynnwys 70 (63) o ddamweiniau y bu bron iddynt â digwydd a seyllfaoedd peryglus neu anniogel, 127 (97) achos o seinio larwm tân, 11 (11) achos o fynd yn sownd mewn lifft, a 29 digwyddiadau yn ymwneud â myfyrwyr y tu allan i reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol y Brifysgol).

Mae'r **84** (43) adroddiad sy'n weddill yn ymwneud â digwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a ffitiau) lle darparwyd cymorth.




Nodyn: er hwylustod cyfeirio a chymhariaeth, defnyddir 2018/19 fel blwyddyn gymharu cyn y pandemig.

• DAMWEINIAU'N CYNWYS ANAFIADAU I STAFF A MYFYRWYR

Nifer yr adroddiadau o ddamweiniau i staff a myfyrwyr yn 2024/25, pan gafwyd anaf o ganlyniad i weithgarwch neu astudiaethau yn y brifysgol neu anaf ar dir y brifysgol oedd **59** (46 yn 22/23). O'r nifer hwnnw, roedd **42** (31) yn ddamweiniau'n ymwneud â Staff ac **17** (15) yn ymwneud â Myfyrwyr.

Anafiadau i Staff a Myfyrwyr



Nodyn: Effeithiwyd ar y blynyddoedd 19/20 – 21/22 gan y pandemig, pan oedd llai o weithgarwch ar y safle nag a fyddai fel arall, a llai o ddamweiniau felly wedi eu cofnodi.

Yn ychwanegol at yr adroddiadau o ddamweiniau pan anafwyd Staff/Myfyrwyr, cafwyd **12** yn rhagor (13 yn 23/24) o adroddiadau am ddamweiniau pan anafwyd ymwelwyr a chontractwyr.

• ANAFIADAU DIFRIFOL (PENODOL)

Ni chafwyd **unrhyw anafiadau difrifol** (yn unol â diffiniad RIDDOR) i staff na myfyrwyr y brifysgol yn ystod y flwyddyn. *Byddai anafiadau difrifol o'r fath yn cynnwys toresgyrn, sgaldiadau sydd angen triniaeth yn yr ysbyty, colli ymwybyddiaeth, a llosgiadau difrifol.*

- Roedd yna **1** anaf difrifol a oedd angen triniaeth ysbyty i gontractwr sgaffaldau o ganlyniad i gwymp mewn adeilad Prifysgol. *Crynoir hyn yn yr adran Digwyddiadau Difrifol, gweler tudalen 11.*
- Roedd yna **1** anaf i blentyn a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Chwaraeon Canolfan Brailsford. Dioddefodd y plentyn rwygiad a difrod i flaen bys

o ganlyniad i gael ei ddal o dan fwrdd roedd yn chwarae ag o.


• **CYFRADD Y DAMWEINIAU PAN GAFODD RHYWUN EI ANAFU (fesul 1000 mewn Risg)**

Staff

Cymhareb y damweiniau pan gafodd staff eu hanafu yn 2023/24 oedd **21.3** o ddamweiniau i bob 1,000 o weithwyr⁶. Cynnydd o'r **15.7/1000** wedi'u hadrodd yn 2023/24.

Y gyfradd genedlaethol yn 2024/25 (y data diweddaraf sydd ar gael) oedd **17.71/1000** (cyfrif pennau).

Damweiniau pan anafwyd rhywun - ffigyrau ar gyfer y sector ac ar gyfer Prifysgol Bangor ar gyfartaledd fesul 1000 o AELODAU STAFF (2006 – 2024/25)



17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25
22	21	11.5	9.6	6.9	21.5	15.7	21.3
23.64	21.05	14.62	10	13.85	16.04	18.05	17.71


Nodyn: rhagwelir y bydd y gymhareb o ddamweiniau pan anafwyd rhywun fesul 1000 o weithwyr yn cynyddu yn 2025/26, gan adlewyrchu nifer llai o staff a gyflogir.

Myfyrwyr

Yn ystod 2023/24, bu **17** (15 yn 23/24) o ddamweiniau pan anafwyd myfyrwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w hastudiaethau, neu weithgarwch yn y Brifysgol. Mae hyn yn gymhareb o **1.4** (1.1 yn 23/24) o ddamweiniau fesul 1,000 o fyfyrwyr⁷.

⁶Yn seiliedig ar 1,970 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn (cyfrif pennau) (1,977 yn 23/24)

Damweiniau pan anafwyd rhywun, ar gyfer y sector ac ar gyfer Prifysgol Bangor ar gyfartaledd fesul 1000 o FYFYRWYR (2006 – 2024/25)



17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25
1.5	1.3	0.6	0.7	0.3	0.5	1.1	1.4
2.6	2.9	1.83	1.27	2	0.97	2.71	2.7

• **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

Yn ystod y flwyddyn academiaidd bu **2** ddamwain / digwyddiad (RIDDOR) y bu'n rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Roedd **1** digwyddiad RIDDOR yn ymwneud ag aelod o staff diogelwch a ddaliodd ei law mewn drws a oedd yn cau, gan arwain at yr aelod staff hwnnw'n cymryd dros 7 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith. Roedd y digwyddiad arall a adroddwyd yn ei gylch yn ymwneud ag ymwelydd (plentyn) a oedd wedi dal ei fys o dan fwrdd.

Cyfradd digwyddiadau adroddadwy (RIDDOR) flynyddol Prifysgol Bangor ar gyfer **Staff** yw 0.5/1000. Y gyfradd yn 2023/24 oedd 1/1000.

Adroddiadau RIDDOR Blynyddol fesul categori				
Blwyddyn	Staff	Myfyrwyr	Ymwelwyr	Cyfanswm
2024/25	1	0	1	2
2023/24	2	0	0	2
2022/23	1	1	0	2
2021/22	0	1	0	1
2020/21	1	1	0	2
2019/20	1	0	0	1
2018/19	5	1	1	7
2017/18	0	3	0	3
2016/17	1	1	0	2
2015/16	4	1	0	5

⁷Yn seiliedig ar 12,052 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn (13,606 yn 23/24)


2014	7	1	0	8
2013	3	1	1	5
2012	0	2	0	2
2011	3	0	0	3
2010	3	3	1	7
2009	10	0	2	12

Nid oedd **unrhyw** Afiechydon Galwedigaethol Adroddadwy na Digwyddiadau Peryglus Adroddadwy yn 2024/25.

• **ACHOSION DAMWEINIAU PAN GAFODD RHYWUN EI ANAFU (pob damwain)**

Roedd y rhan fwyaf o'r **71** damwain lle bu anaf (42 o staff, 17 o fyfyrwyr a 12 arall) yn gysylltiedig â'r canlynol:

- o codi, cario neu drin rhywbeth **22** (31%)
- o taro gan rywbeth symudol **10** (14%)
- o llithro, baglu neu syrthio **29** (41%)
- o taro rhywbeth sefydlog / llonydd **2** (3%)
- o gydag achosion eraill yn ymddangos yn **8** digwyddiadau (11%)




Cynyddodd anafiadau yn sgil codi a chario o 14 yn 2023/24 i 22 yn Adroddiad eleni. Mae hyn yn adlewyrchu clwstrwr penodol o ddigwyddiadau codi a chario a ymchwiliwyd iddynt a chymerwyd camau i wella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.

• Data Cenedlaethol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2024/25


Mae cymharydd cenedlaethol achosion damweiniau a achosodd anaf, sy'n cael ei adrodd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (y data diweddaraf sydd ar gael) ar gyfer damweiniau

'adroddadwy' (RIDDOR) nad ydynt yn angheuol yn dangos (dim ond) yr un 2 achosiad uchaf â'r Brifysgol.



• **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I AELODAU STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Cofnodwyd **5** digwyddiad a achosodd i staff golli amser staff o'r gwaith yn 2024/25, sy'n gynydd bychan ers y flwyddyn flaenorol.



Dyma'r 5 digwyddiad a achosodd i staff golli amser o'r gwaith:

- 1 – troi ffêr a syrthio wrth gario blwch ar lwybr gwastad.
- 1 – difrod i feinweoedd meddal ar ôl i gadair rolïo yn ôl ac i'r person syrthio i'r llawr.
- 1 – pen a wyneb wedi'u cleisio ar ôl i ffenestr agor yn sydyn am i fewn.
- 1 – difrod i feinwe meddal y llaw ar ôl ei dal mewn drws.
- 1 – haint ar y bys ar ôl ei ddal mewn drws.


• DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON

Derbyniwyd **137** (157) adroddiad o ddigwyddiadau yn ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd). Roedd a wnelo'r rhain yn bennaf ag anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth gymryd rhan mewn rhai chwaraeon cystadleuol sy'n gorfforol heriol.

• DIGWYDDIADAU DIFRIFOL (CRYNODEB)

Tân yn y Ganolfan Ddata a'r systemau dechnoleg gwybodaeth yn diffygio

Ar y 23^{ain} o Dachwedd 2024, arweiniodd nam gyda Chyflenwad Pŵer Di-dor (UPS) arbenigol ar gyfer prif ganolfan ddata a gweinyddion y Brifysgol at orboethi/tân sylweddol yn ymwneud â'r offer. Gwelwyd mwg yn dod o ystafell switsys trydanol a daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.



Yn ystod yr ymateb brys, ynyswyd yr holl bŵer trydanol i'r ystafell switsys yr effeithiwyd arni i ganiatáu i'r Gwasanaeth Tân ac Achub drin y peryg tân uniongyrchol. Bu i'r weithred hon ynysu'r Ganolfan Ddata yn drydanol, a methodd nifer o systemau TG y Brifysgol.

Ymatebodd staff a chontractwyr y brifysgol yn gyflym ac yn broffesiynol ac roedd y rhan fwyaf o systemau yn ôl ar-lein erbyn y diwrnod gwaith canlynol.


Mae yna lawer o gyfleoedd dysgu o'r digwyddiad hwn.

Roedd yr eitem o offer a fethodd yn llai na 3 blwydd oed ac wedi cael ei thrin 10 diwrnod cyn y digwyddiad.

Syrthio o Sgaffaldau

Ar fore'r 29^{ain} o Dachwedd 2024, roedd contractwyr sgaffaldau yn tynnu sgaffald mynediad oddi ar do a drychiad blaen adeilad storio Archif y Llyfrgell.

Yn ystod y gwaith o symud y sgaffald, syrthiodd aelod o griw 3 pherson y contractwr sgaffaldau (y Goruchwyliwr) trwy ddarn bregus o'r to, gan syrthio tua 3.5 metr ar reilen fetel oddi tano, ac yna ar y llawr concrit, a oedd yn gwmp o 2 fetr pellach.



Daeth Parafeddygon a Swyddogion Diogelwch y Brifysgol i helpu'r claf, ynghyd ag ymatebwr cyntaf oedd ar gontract tymor penodol gyda'r Brifysgol ac a oedd gerllaw ar y pryd. Cafodd y sgaffaldiwr anafedig ei gludo gan Ambiwlans Awyr i Ysbyty Anafiadau Difrifol Stoke-on-Trent.

Yn syth ar ôl y ddamwain, fe wnaeth yr Heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch drin y digwyddiad fel damwain angheuol bosibl.

Yn rhyfeddol, cafodd y sgaffaldiwr rai anafiadau mewnol bychain yn unig, nad oedd angen unrhyw driniaeth ymyrraeth arnynt, ac anaf i'w ffêr.


Ymchwiliodd Heddlu Gogledd Cymru, ac yna'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i'r digwyddiad ac, yn dilyn sawl wythnos o ymchwiliad, ni chymerwyd unrhyw gamau yn erbyn y Contractwr Sgaffaldau, y Contractwr Cynnal a Chadw a gomisiynodd y sgaffaldau, na'r Brifysgol a oedd â rheolaeth dros yr adeilad ac a oedd wedi gofyn am y gwaith (Y Cleient).

Nodir bod defnyddio harneisiau a laniardau i atal digwyddiad o'r fath yn ofynnol ar gyfer y math hwn o waith. Roedd yn amlwg bod yr offer priodol wedi'i wisgo ac yn ôl pob golwg heb ei ddefnyddio'n gywir, gan arwain at y sgaffaldiwr yn syrthio.

Nid oedd unrhyw fethiant ym mholisi na gweithdrefnau'r Brifysgol a allai fod wedi dylanwadu ar y digwyddiad neu wedi'i briodoli i'r digwyddiad.

• CYFRADDAU A DIGWYDDIADAU WRTH DEITHIO DRAMOR

Cofnodwyd **877** o deithiau tramor sy'n gysylltiedig â'r brifysgol yn ystod 2024/25, y bu staff a myfyrwyr arnynt.




Yn ystod 2024/25, adroddwyd am 3 achos o anafiadau yn ystod ymweliadau tramor.

- anaf i'r cefn pan fu i risiau awyr agored ddymchwel mewn gwesty ym Malawi (Gweithiwr prifysgol dramor ar ymchwil dan arweiniad sefydliad arall)

- pen-glin wedi'i gleisio o ddamwain traffig ffordd yn Nigeria
- archoll i'r pen-glin ym Madagascar ar ôl i fyfyrwr gerdded i mewn i ddrws patio

Achosion Yswiriant Teithio

O ran hawliadau yswiriant cyffredinol, cyflwynwyd **8** Hawliadau Teithio Tramor. Roedd **5** o'r rhain sy'n gysylltiedig â materion meddygol neu faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd dramor, gan gynnwys gwenwyn bwyd, triniaeth ddeintyddol frys, llid y pendics aciwt, a salwch cyffredinol. Roedd **1** yn gysylltiedig â hawliad a wrthodwyd wedi hynny.



Hawliadau eraill yn ymwneud â Theithio Tramor:

- Roedd 2 yn gysylltiedig â phroblemau meddygol a wnaeth eu hatal rhag teithio/wneud iddyn nhw ganslo'r daith.

• DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU

Cerbydau Llog y Brifysgol (prif ddarparwr).

Mae'r agwedd hon ar ddefnyddio cerbydau'n cael ei gwerthuso fel dangosydd risg ar gyfer 'gyrru cysylltiedig â gwaith' gan ddefnyddio cerbydau llog.

Yn ystod 2024/25, cafodd car ei logi ar **228** (284 yn 2023/24) o achlysuron unigol, dros gyfanswm o **580** (1,059 yn 2023/24) o ddyddiau.

Cyfanswm y pellter a deithiwyd **58,937 milltir**⁸ (114,258 yn 2023/24 a 123,801 milltiroedd yn 2022/23) ac ni chafodd unrhyw ddamweiniau traffig ffordd eu hadrodd.

⁸ Data a ddarparwyd gan brif gyflenwr ceir llog y brifysgol, Aberconwy Car Hire

Prif Ddarparwr Cerbydau Llog: Cyfradd y Digwyddiadau ⁹					
2022/23		2023/24		2024/25	
Cyfanswm Diwrnodau	Cyfanswm Milltiroedd	Cyfanswm Diwrnodau	Cyfanswm Milltiroedd	Cyfanswm Diwrnodau	Cyfanswm Milltiroedd
1,124	123,801	1,059	114,258	580	58,937
Yr Hawliadau Yswiriant a Wnaed					
Nifer y Digwyddiadau /Diwrnodau	Nifer y Digwyddiadau /Milltiroedd	Nifer y Digwyddiadau /Diwrnodau	Nifer y Digwyddiadau /Milltiroedd	Nifer y Digwyddiadau /Diwrnodau	Nifer y Digwyddiadau /Milltiroedd
3.56 / 1000 diwrnod	3.23 / 100 mill o filltiroedd	4.7 / 1000 o ddiwrnodau	4.4 / 100 mill o filltiroedd	6.9 / 1000 o ddiwrnodau	6.8 / 100 mill o filltiroedd
CYFANSWM YR ANAFIADAU		CYFANSWM YR ANAFIADAU		CYFANSWM YR ANAFIADAU	
0		0		0	

Sylwer: mae'r tabl hwn yn berthnasol i'r prif ddarparwr cerbydau llog yn unig.

Fflyd Cerbydau'r Brifysgol

Y Gwasanaethau Campws yw'r defnyddiwr cerbydau unigol mwyaf yn y Brifysgol, yn rhedeg **34** o gerbydau ffordd yn 2024/25. Roedd gweddill y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol yn rhedeg **10** cerbyd arall (nid yw hyn yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr).

Mae'r **44** o gerbydau yr oedd y brifysgol yn berchen arnynt/yn eu prydlesu wedi teithio **127,955** o filltiroedd yn ystod y flwyddyn.

Hawliadau Yswiriant (yr holl gerbydau llog a'r fflyd cerbydau yn y DU)

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed **7** o hawliadau'n defnyddio yswiriant cerbydau. Roedd 3 ohonynt yn ymwneud â fflyd cerbydau'r brifysgol a 4 yn ymwneud â cherbydau wedi'u llogi a ddefnyddir ar gyfer busnes y Brifysgol.

Roedd 2 o'r 7 hawliad yn ymwneud â ffenestri blaen wedi cracio wrth yrru, cafodd 1 ffenestr gefn ei chwalu mewn fandaliaeth, a chafodd 2 gerbyd ddifrod bach wrth gael eu gyrru.

⁹ Yn defnyddio cyfanswm y digwyddiadau (4) fesul **diwrnodau llogi a milltiroedd** ar gyfer un darparwr cerbydau (llogi), Aberconwy Car Hire

Roedd 2 hawliad yn ymwneud â gwrthdrawiad â cherbydau eraill, y ddau yn gerbydau fflyd y Brifysgol.

Ni chafodd unrhyw un ei anafu yn unrhyw un o'r 7 digwyddiad.

Digwyddiadau pan na wnaed Hawliadau Yswiriant
Yn ogystal â'r digwyddiadau sy'n cael eu crynhoi uchod, roedd 6 ddigwyddiad arall yn ymwneud â defnyddio cerbydau.

- 2 ddamwain traffig ffordd a arweiniodd at anafiadau bach i aelodau staff.
- 1 gwrthdrawiad cerbyd, heb arwain at anaf.
- Methodd brêc llaw cerbyd y brifysgol gyda'r cerbyd yn rholio i mewn i wal.
- Bu i beiriant 'Iestyn Ymestyn' contractwr daro car oedd wedi parcio ar y safle.
- Roedd gyrrwr a oedd yn parcio ei gar fynd am yn ôl trwy gamgymeriad a tharo car arall gan wthio'r car hwnnw i flaen yr adeilad gan achosi mwy o ddifrod.

Cerbydau Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'i yswirwyr ei hun. Nid yw Undeb Myfyrwyr yn prydlesu bysiau mini mwyach, dim ond 2 gerbyd amlbwrpas ac 1 fan sydd ganddo bellach.

Ni chofnodwyd **unrhyw** ddigwyddiadau traffig ffyrdd yn 2024/25. Gwnaed **un** hawliad yswiriant am dolc ar ochr cerbyd. Digwyddodd hyn wrth yrru cerbyd allan o faes parcio'r Brifysgol. Ni chafwyd unrhyw anafiadau.

Cyfanswm y milltiroedd ar gyfer y 2 gerbyd amlbwrpas ac 1 o'r faniau oedd 10,513.

• **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW) A HYFFORDDI CONTRACTWYR**


Monitro Safleoedd

Yn ogystal â'r gwaith rheoli a goruchwyllo beunyddiol, bydd staff y Gwasanaethau Campws yn cynnal archwiliadau safle iechyd a diogelwch ffurfiol i gadarnhau a monitro bod contractwyr a staff cynnal a chadw'r Brifysgol yn gweithio'n ddiogel. Yn ogystal,

mae'r Contractwr Cyfnod Penodol a benodwyd yn cynnal Arolygiadau Safle o weithgareddau Contractwyr y mae yn eu cyflogi neu'n eu rheoli.

Mae'r archwiliadau hynny'n ceisio cadarnhau nad oes neb yn cael ei roi mewn perygl oherwydd gweithgarwch Contractwr i'r Gwasanaethau Campws neu oherwydd gweithgarwch cynnal a chadw.

Yn ystod 2024/25 cynhaliwyd **222** o archwiliadau safle cofnodedig, gostyngiad o'i gymharu â'r 405 yn 23/24.



Mae'r siart uchod yn dangos cyfanswm yr archwiliadau safle a gynhaliwyd, a % y rhai a arsylwyd fel rhai o safon dda, y rhoddwyd rhybudd neu y bu tor-amod difrifol.

Hyfforddiant Contractwyr:

Yn ystod 2024/25, darparwyd **112** o sesiynau cynefino i gontractwyr gan y Gwasanaethau Campws, sef gostyngiad o 49% ar y 220 a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. *Nodir bod llai o gontractwyr newydd wedi'u cyflogi yn ystod 2024/25, ac felly roedd angen llai o gyrsgiau.*

Mae hefyd yn ofynnol i gontractwyr (cwmnïau) ac mewn llawer o achosion eu staff goruchwylio allweddol, ymgymryd â sesiwn gynefino benodol y Gwasanaethau Campws sy'n rhoi sylw i safonau gweithredu a diogelwch, a byddai'r unigolion hynny wedyn yn rhannu'r wybodaeth a gawsant â gweithwyr y Contractwr, a'u his-gontractwyr.

6. GWYLIADWRIAETH IECHYD

DANGOSYDD
PERFORMIAD



Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol ar iechyd a oedd yn gysylltiedig â gwaith.

Cynhaliwyd gwyliadwriaeth iechyd a monitro iechyd gydag oddeutu **102** aelod o Staff i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Darperir gwyliadwriaeth, o wahanol fathau, i aelodau staff os ydynt yn gwneud defnydd o offer sy'n dirgrynu ac yn cael eu hamlygu i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i nifer o wyddonwyr ymchwil, staff technegol a staff cynnal tiroedd, gweithwyr shiftiau, gyrrwyr ar gontract a staff sy'n trin anifeiliaid. Darperir gwyliadwriaeth iechyd yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai risgiau penodol yn y gweithle'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd.

7. LARYMAU TÂN YN CANU


DANGOSYDD
PERFORMIAD




Bu cynnydd yn nifer y larymau tân 'annisgwyliedig' a ganodd, yn enwedig o fewn Neuaddau Preswyl lle bu'r achosion ar eu huchaf ers 10 mlynedd.

Mae dros gant o adeiladau yn ystâd y Brifysgol. Caiff y mwyafrif eu diogelu gan systemau canfod tân awtomatig a larymau tân. Mae tua 9,000 o synwryddion mwg/gwres wedi eu gosod ledled yr ystâd. Yn ystod 2024/25, cafwyd 131 achos o larymau tân yn canu yn adeiladau'r Brifysgol, cynnydd o **28.4%** ar y 102 achos yn 2023/24.

Larymau Tân yn Canu 2012 – 24/25



Gellir is-rannu cyfanswm yr achlysuron pan ganodd larymau tân heb i hynny fod wedi ei gynllunio (131) i ddynodi'r gyfradd ar gyfer adeiladau preswyl ac adeiladau academaidd/gweinyddol yn ystâd y Brifysgol.



Neuaddau Preswyl
Academaidd a Gweinyddol

Bu cynnydd bychan yn sawl gwaith y canodd larymau tân mewn adeiladau academaidd a gweinyddol i **47** yn 2024/25, i fyny o 43 yn 23/24.

Bu cynnydd mawr yn sawl gwaith y canodd larymau tân mewn neuaddau preswyl i **84**, i fyny o 59 yn 2023/24.

Bu **0** achos maleisus o ganu larymau tân yn 2024/25 (3 yn 2023/24).


Adroddiad a gwerthusir ymhellach yr achlysuron pan fo larymau tân yn canu yn ôl nifer y synwryddion mwg/tân sydd wedi eu gosod ac yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely astudio sydd ar gael i'w defnyddio. Mae hyn yn darparu dangosydd perfformiad nad effeithir arno'n uniongyrchol gan gynydd yn nifer y synwryddion, neu ostyngiad yn nifer yr ystafelloedd gwely astudio sydd ar gael i fyfyrwyr.

¹⁰Yn seiliedig ar 4335 o synwryddion mewn neuaddau
Yn seiliedig ar 4630 o synwryddion mewn adeiladau academaidd

Cyfradd yr achosion pan ganodd larymau tân fesul 1000 o synwryddion

Ystâd	24/245	23/24	Tuedd
Neuaddau Preswyl ¹⁰	19.4/1000	13.6/1000	Cynnydd Nodedig
Academaidd a Gweinyddol ¹¹	10.2/1000	9.3/1000	Cynnydd bychan

Larwm Tân yn Canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely - Bangor¹²



15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25
25	22	20	17.6	13.9	24	28.7	25	23.8	34

*Nid oes data ar gyfer cymaryddion cenedlaethol ar gael bellach

Sawl gwaith y galwyd y Gwasanaeth Tân

Cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu galw i **28 digwyddiad**, cynnydd ar y 30 achlysur yn 23/24.

Roedd **27** o'r achlysuron pan gafodd y Gwasanaeth Tân ac Achub eu galw (26 yn 23/24) yn alwadau i Neuaddau Preswyl gyda'r nos ac yn oriau mân y bore (rhwng 8pm ac 8am).

TANAU

Roedd yna **4** tân yn 2024/25, cynnydd o'i gymharu â'r 2 achos yn 2023/24.

Roedd **2** dân 'bach' mewn biniau allanol ar safle Preswyl Ffriddoedd, y ddau o bosibl oherwydd sigarêts heb eu diffodd. Barnwyd bod tân arall

¹²Yn seiliedig ar 2471 o ystafelloedd gwely

(carped wedi llosgi) yn ystafell wely astudio myfyriwr wedi'i achosi gan wefrydd iPad diffygiol.

Roedd y pedwerydd digwyddiad yn ymwneud â 'thân' yn ystafell y gweinydd yn adeilad Deiniol (*Gweler Crynodeb o'r Digwyddiad Difrifol, ar dudalen 11*)

Roedd 2 (9) achos o dân 'fu bron â digwydd', a ddiffinnir fel digwyddiad "a oedd yn ymwneud â mwg yn unig, heb fflamau." Roedd y ddau o'r rhain mewn Neuaddau Preswyl, 1 oherwydd popty/gril budr, a'r llall oherwydd digwyddiad yn ymwneud â choginio.

8. HAWLIADAU SIFIL (IECHYD A DIOGELWCH / YN YMWNEUD Â DIGWYDDIAD)

Yn 2024/25 roedd yna 1 Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'i setlo, yn ymwneud ag aelod o staff yn cael ei daro ar ei ben gan ffenestr a difrodi eiddo personol.

9. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2024/25, cafwyd 16,686 (-30.18%) o ymweliadau unigryw â thudalennau gwe Iechyd a Diogelwch, y gall y cyhoedd eu gweld, dyma'r 5 tudalen mwyaf poblogaidd:

- Asesiadau Risg
- Cyfrifianellau Laser
- Teithio Dramor
- Hafan
- Cyfeiriadur yn nhrefn yr wyddor

Yn ogystal, bu 7,125 o ymweliadau â thudalennau gwe Iechyd a diogelwch FyMangor (9,133 yn 2023/24) sy'n hygyrch ddim ond i staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor.

Diwedd.